

Datglymu'r clymau

“Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly, fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder.” (adn. 9)

Beth am ddarllen 1 Ioan 1:1–10 ac yna myfyrio

Rydym am dreulio un diwrnod arall yn meddwl am yr ymdrech sydd yn angenrheidiol wrth inni ychwanegu at ein ffydd ‘ragoriaeth foesol’. Os oes yna unrhyw beth amheus yn ein bywyd, unrhyw beth sydd yn syrthio yn fyr o’r safon y mae Gair Duw yn ei osod, yna rhaid inni ymwrthod ag ef yn ddi-oed.

Dywedodd efengylwr oedd yn arfer teithio’r byd wrthyf unwaith ei fod yn gosod y Beibl ar ben ei ddillad wrth iddo osod y dillad yn y cas, fel pan fyddai yn mynd trwy borthladd neu yn hedfan, byddai’r rhai a fyddai’n archwilio yn darganfod ei fod yn grefyddol, ac yn peidio edrych am eitemau amheus oedd ar waelod y cas. Dywedodd wrthyf hefyd pryd bynnag y byddai’n pregethu, byddai yna lais bach, llais cydwybod, yn dweud: “Nid wyt y dyn y mae pobl eraill yn meddwl yr wyt ti.” Pan benderfynodd gael gwared ar y math yma o anonestrwydd, fe fu iddo brofi grym newydd yn ei weinidogaeth.

Os pobl yr ydym ni sydd yn barod i gael rhyw bethau amheus yn ein bywyd, yna rhaid i ni symud i ffwrdd o’r math yna o fywyd ar fyrder. Disgrifiodd un pregethwr y broses yma yn ei fywyd fel cyffesu ei bechodau yn agored. Dywedodd un golygydd papur newydd yn India ei fod wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau ffals yn ei bapur, ond, yn ddiweddarach, ei fod wedi cyffesu ei fod wedi gwneud hynny. Fe feirniadwyd ef yn hallt am gyffesu ei euogrwydd, ond dywedodd: “Bu i’r gyffes yna ddad-wneud y rhwymau oedd yn clymu fy enaid.”

Mae hen ddywediad sydd yn dweud fod cyffes yn dda i’r enaid. Mae hyn yn berffaith wir. Ond wrth bwy y dylem gyffesu ein pechod? Wel, cyffesa dy bechod yn gyntaf i Dduw. Os oes eraill wedi eu heffeithio, cyffesa o’u blaen hwythau hefyd. Os nad oes pobl eraill wedi eu heffeithio, yna mater i ti a Duw yn unig yw ef. Does dim angen cyhoeddi ein pechod i bawb. Mae Duw yn delio gyda rhai pethau yn ei swyddfa breifat.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 32:1–11; 38:1–22; Eiseia 59:1–3

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd yn digwydd wrth inni guddio ein pechod?
2. Beth sydd yn digwydd pan fyddwn yn cyffesu ein pechod?

Gweddi

Arglwydd, wrth i mi edrych ar y cwestiwn yma o ragoriaeth foesol, a yw hi’n bosibl i mi gau fy nghalon i ti? Nid wyf yn dymuno gwneud hynny. Rwy’n dod fel ag yr wyf. Gwna fi yn bur yn foesol. Gwna fi yn lân. Yn enw Iesu. Amen.